

Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolygu gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru

www.gov.wales

Deddf newydd o Ionawr 2016



Fersiwn Hawdd ei Ddeall byr yw hwn o 'Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu
Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016'

Ebrill 2016

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Fersiwn Hawdd ei Ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn bydd yn cael ei ddangos mewn **ysgrifennu glas cyffredin**. Os gwelwch chi eiriau mewn **ysgrifennu glas cyffredin**, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl yn **Geiriau anodd** ar **dudalen 24**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru.



Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols 5.

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....	2
Beth yw gofal a chymorth?	4
Cyflwyniad.....	5
Newid y ffordd rydyn ni'n arolygu gwasanaethau.....	7
Y ddeddf newydd.....	9
Arolygu darparwyr gwasanaeth	10
Cofrestru darparwr gwasanaeth.....	10
Arolygu lles pobl.....	12
Adroddiadau.....	13
Pan na fydd darparwyr yn cwrdd â'r gofynion.....	15
Unigolyn cyfrifol.....	17
Cwrdd ag anghenion gofal pan fydd darparwyr yn methu.....	18
Gwneud yn siŵr bod gan Gymru weithwyr da	20
Cofrestr ar gyfer gweithwyr.....	22
Geiriau Anodd.....	24

Beth yw gofal a chymorth?

Gall gofal a chymorth fod yn llawer o bethau fel:



- cymorth i fyw gyda'ch teulu



- cymorth i fyw yn eich cartref eich hun



- cartrefi gofal



- maethu a mabwysiadu

Mae llawer o bobl yng Nghymru sydd angen gofal a chymorth. Mae'r rhain yn cynnwys:



- pobl o bob oedran



- pobl anabl



- pobl sydd ag anabledd dysgu.

Cyflwyniad



Rydyn ni wedi ysgrifennu deddf newydd sy'n dweud sut y bydd gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu harolygu.

Mae hyn yn cael ei alw'n **Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**.



Fe ysgrifennon ni'r ddeddf newydd ar ôl gwranddo ar farn pobl a gwneud ymchwil.



Mae arnon ni angen edrych a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn cwrdd â lefel yr ansawdd y mae'r gyfraith yn gofyn amdano.



Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin. Ac er mwyn hybu eu **lles**.



Mae **lles** yn meddwl bod pethau'n digwydd sy'n gwneud person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus yn eu bywyd ac ym mhopeth maen nhw'n ei wneud.

Yng Nghymru mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu harolygu gan:



- **Cyngor Gofal Cymru (CGC)**



Mae'r **CGC** yn gweithio gyda gweithwyr gofal a chymorth i wneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r medrau iawn i wneud eu gwaith.



- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).**



Mae'r **AGGCC** yn gweithio gyda darparwyr gwasanaeth i wneud yn siŵr eu bod nhw'n dilyn y rheolau ac yn cwrdd â lefel yr ansawdd y mae'r gyfraith yn gofyn amdano.



Mae'n rhaid i'r **CGC** a'r **AGGCC** amddiffyn defnyddwyr gwasanaeth rhag niwed trwy wneud yn siŵr bod gofal a chymorth cystal ag y dylai fod.

Newid y ffordd rydyn ni'n arolygu gwasanaethau

Mae newidiadau wedi bod mewn gwasanaethau cymdeithasol dros y blynyddoedd diwethaf.



Ac mae newidiadau wedi bod yn y ffordd mae pobl angen gofal a chymorth.

Mae arnon ni angen:



- gwneud yn siŵr bod y ffordd rydyn ni'n arolygu gwasanaethau yn cael ei diweddaru



- gwneud yn siŵr ein bod ni'n edrych sut mae lles pobl yn cael ei effeithio gan y gwasanaeth maen nhw'n ei gael. **Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn dweud bod lles wrth galon gofal a chymorth



- gwneud yn siŵr bod pobl yn cael cymryd rhan mewn arolygu gwasanaethau

- dysgu gwersi o bethau sydd wedi mynd o'i le yn y gorffennol



Er enghraifft – pan fydd pobl wedi cael eu cam-drin gan staff gofal. Fel yn Ysbyty ‘**Winterbourne View**’ ym Mryste.



Er enghraifft – pan fydd darparwr gwasanaeth wedi cau heb rybudd, gan adael pobl heb ofal a chymorth. Fel yn ‘**Southern Cross Healthcare**’ yn Lloegr.



- gwneud yn siŵr bod deddfau ynghylch gofal a chymorth yn glir ac yn hawdd i'w deall.

Y ddeddf newydd



Prif amcanion y ddeddf newydd yw gwneud yn siŵr bod:

- gofal a chymorth yng Nghymru yn dal i wella
- popeth er lles i bobl.



Bydd y ddeddf newydd yn gwneud yn siŵr:



- bod pobl yn cymryd rhan yn y ffordd rydyn ni'n arolygu gwasanaethau



- ein bod ni'n meddwl sut mae gwasanaethau yn effeithio ar les pobl



- bod darparwyr gwasanaeth yn atebol am unrhyw gamgymeriadau



- bod gennym ni'r gweithwyr gorau mewn gofal a chymorth



- bod y gyfraith yn hawdd ei deall a bod y ddeddf i gyd mewn un lle.

Arolygu darparwyr gwasanaeth



Gall darparwr gwasanaeth fod yn awdurdod lleol, yn elusen neu'n fusnes preifat.

Mae arnon ni eisiau i'r ffordd rydyn ni'n arolgyu gwasanaethau ein helpu i:



- gadw pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth yn ddiogel



- gwneud yn siŵr bod gwasanaethau y gorau y gallan nhw fod.

Cofrestru darparwyr gwasanaeth




Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gofrestru gydag [AGGCC](#) i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Fe fyddwn ni'n gwneud hyn yn haws.

Dim ond unwaith y bydd rhaid iddyn nhw gofrestru, hyd yn oed os ydyn nhw'n darparu gwasanaethau mewn llawer o wahanol fannau.



Bydd yn rhaid iddyn nhw ddweud ble maen nhw'n darparu gwasanaethau. Gall hyn newid os byddan nhw'n agor lleoedd newydd yn y dyfodol.



Bydd **AGGCC** yn cadw cofrestr o ddarparwyr gwasanaeth. Fe fydd ar gael i bobl ei weld.



Nid oes rhaid i wasanaethau gofal a chymorth awdurdodau lleol gofrestru. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid iddyn nhw ddarparu'r gwasanaethau hyn yn ôl y gyfraith.



Maen nhw'n dal i gael eu harolygu i wneud yn siŵr eu bod yn dilyn y rheolau a darparu gwasanaethau da.

Arolygu lles pobl



Bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ganolbwyntio ar les y bobl yn eu gofal, yn lle poeni ynghylch gwneud pethau mewn ffordd arbennig er mwyn pasio'r profion.



Bydd hyn yn meddwl y bydd y ffordd rydyn ni'n arolygu gwasanaethau yn dilyn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Fe fyddwn ni'n ysgrifennu set newydd o **ofynion**.

Mae **gofynion** yn bethau y mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth eu gwneud wrth roi gwasanaeth yn y ffordd iawn.



Bydd y gofynion yn cynnwys materion ymarferol – fel gwneud yn siŵr bod staff yn cael eu harchwilio, eu bod nhw'n cael y math iawn o hyfforddiant a bod cofnodion yn cael eu cadw'n iawn.



Fe fyddan nhw hefyd yn cynnwys siarad â phobl i ddeall beth sy'n bwysig iddyn nhw a chynnwys pobl mewn penderfyniadau am eu gofal.

Adroddiadau

Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl wybodaeth am y gofal a'r cymorth y mae darparwr gwasanaeth yn ei roi. Bydd hyn yn:



- helpu pobl i ddeall gwasanaethau gofal yn well



- rhoi mwy o reolaeth i bobl



- helpu pobl i ddewis y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.



Bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn am y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Bydd hyn yn cael ei alw'n **ddatganiad blynyddol**.




Bydd datganiadau blynyddol gan wahanol ddarparwyr gwasanaeth yn cael eu gosod allan yn yr un ffordd. Felly fe fydd yn haws cymharu darparwyr gwasanaeth.



Fe fydd yn **drosedd** i beidio ag ysgrifennu datganiad blynyddol. Fe fydd yn **drosedd** i roi'r wybodaeth anghywir mewn datganiad blynyddol.

Mae'n **drosedd** pan fyddwch chi'n torri'r gyfraith neu'r rheolau.



Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn am eu gwasanaethau gofal a chymorth.



Bydd adroddiadau gan awdurdodau lleol yn cael eu gosod allan yn yr un ffordd fel eu bod nhw'n gallu cael eu cymharu.



Bydd yr **AGGCC** hefyd yn gorfod ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn. Bydd yr adroddiad yn dweud sut y mae wedi cynnwys pobl yn ei waith.

Bydd pawb yn gallu darllen yr adroddiadau.

Pan na fydd darparwyr yn cwrdd â'r gofynion



Pan na fydd darparwyr yn cwrdd â'r **gofynion**, fe fydd amser yn cael ei roi iddyn nhw i'w gwneud yn well.



Bydd arolygwyr yn gallu gweithio gyda darparwyr gwasanaeth i'w helpu i wella.



Efallai y bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ddangos bod y newidiadau y maen nhw wedi eu gwneud yn dal yn digwydd.

Bydd hyn yn rhwystro darparwyr gwasanaeth rhag newid pethau am gyfnod byr yn unig. Yna gadael i bethau fynd yn ôl i'r ffordd yr oedden nhw o'r blaen.

Gellir mynd â darparwr gwasanaeth i'r llys os nad ydyn nhw:




- wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth



- yn rhoi gwybodaeth pan fydd rhywun yn gofyn iddyn nhw. Neu dydy'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi ddim yn wir



- yn gadael i arolygwyr arolygu eu gwasanaeth. Neu dydyn nhw ddim yn dilyn gorchmynion gan arolygwr



- yn dilyn rheolau arbennig yn y ffordd maen nhw'n darparu eu gwasanaethau.

Unigolyn cyfrifol



Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth enwi **unigolyn cyfrifol**. Gall hwn fod yn berchennog neu'n rhywun sydd â rôl uwch.

Mae **unigolyn cyfrifol** yn rhywun sydd â gofal am ddarparu'r gwasanaeth mewn mudiad neu awdurdod lleol.



Bydd y person hwn yn gyfrifol am rai pethau. Bydd yn rhaid iddyn nhw ateb am eu camgymeriadau.

Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl sydd â gofal yn gorfod cymryd cyfrifoldeb os bydd rhywbeth yn mynd o'i le. Nid dim ond y bobl sy'n darparu gofal a chymorth.



Os yw'r gwasanaeth yn wael iawn gall gael ei gau i lawr yn syth. Mae hyn yn cael ei wneud yn y Llys.



Gall y Llys ddweud pryd y bydd rhaid iddo gael ei gau i lawr. Mae hyn yn meddwl y gellir rhoi amser os bydd angen ailgartrefu pobl.

Cwrdd ag anghenion gofal pan fydd darparwyr yn methu



Weithiau nid oes gan ddarparwyr gwasanaeth sydd yn fusnes neu'n elusen ddigon o arian i ddal ati i ddarparu eu gwasanaeth. Yna mae'n rhaid iddyn nhw gau. Mae hyn yn cael ei alw'n fethu. Weithiau mae hyn yn digwydd yn sydyn.



Dyma beth ddigwyddodd gyda '**Southern Cross Healthcare**' yn Lloegr. Fe gafodd ei gau heb rybudd, gan adael pobl heb ofal a chymorth.




Ar hyn o bryd, os bydd busnes neu elusen sy'n darparu gofal a chymorth yn methu, mae'n rhaid i'r **awdurdod lleol** ddarparu gofal a chymorth.



Mae'r ddeddf newydd yn dweud y gall yr **AGGCC** edrych ar wybodaeth ynghylch faint o arian sydd gan ddarparwyr gwasanaeth.



Os yw'r **AGGCC** yn poeni a yw darparwr gwasanaeth yn mynd i fedru dal i fynd, gallan nhw ddweud wrth yr awdurdod lleol.



Bydd yr awdurdod lleol yn cael amser i gynllunio sut y byddan nhw'n darparu gofal a chymorth os bydd y darparwr gwasanaeth yn methu.



Bydd hyn yn helpu defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd i wybod bod eu gofal a'u cymorth yn mynd i barhau.



Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer Cymru gyfan i ddweud a oes digon o ofal a chymorth ar gael.

Gwneud yn siŵr bod gan Gymru weithwyr da



Ar hyn o bryd mae **Cyngor Gofal Cymru** yn gwneud yn siŵr bod gan weithwyr gofal a chymorth y medrau iawn i wneud eu gwaith.

Rydyn ni'n newid enw **Cyngor Gofal Cymru**. Yr enw newydd fydd **Gofal Cymdeithasol Cymru**.

Bydd gan **Ofal Cymdeithasol Cymru** fwy o rym a mwy o ddyletswyddau. Bydd yn:



- datblygu gweithwyr gofal a chymorth cryf yng Nghymru



- helpu i wneud yn siŵr bod gweithwyr gofal a chymorth yn cael yr hyfforddiant gorau



- helpu i wneud mwy o ymchwil i ofal a chymorth



- rhoi cyngor ynghylch y ffordd orau i ddarparu gofal a chymorth



- dysgu gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth



- helpu mudiadau i weithio gyda'i gilydd a gweithio gyda mudiadau eraill



- rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch gofal cymdeithasol.



Cofrestr ar gyfer gweithwyr

Bydd yn rhaid i rai pobl sy'n gweithio mewn gofal a chymorth gofrestru gyda **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Y bobl hyn yw:



- gweithwyr cymdeithasol

- myfyrwyr gwaith cymdeithasol



- rheolwyr a staff cartrefi gofal plant

- rheolwyr cartrefi gofal oedolion

- rheolwyr gofal cartref.



Ni all unrhyw weithwyr gofal a chymorth eraill gofrestru.



I fod ar y gofrestr mae'n rhaid iddyn nhw ddangos eu bod wedi gwirio ac yn gallu gwneud eu gwaith. Mae'n rhaid iddyn nhw ddiweddarau eu medrau a chofrestru eto pan fydd angen.



Gellir eu tynnu oddi ar y gofrestr os nad ydyn nhw bellach yn gymwys i wneud eu gwaith. Bydd grŵp o bobl yn cael eu dewis i oruchwyllo hyn. Fe fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau teg.



Bydd y ddeddf newydd yn ei gwneud hi'n haws i reolwyr gofrestru.



Gall pobl gael eu gwahardd rhag gweithio mewn rhai swyddi gofal a chymorth. Gall hyn fod oherwydd eu bod wedi methu cwrdd â'r safonau sydd eu hangen. Fe fyddan nhw'n cael eu hychwanegu at restr.



Nid oes raid i bobl sy'n gweithio mewn cartrefi gofal oedolion neu mewn cartrefi pobl gofrestru ar hyn o bryd. Ond gallan nhw gael eu gwahardd o rai swyddi gofal a chymorth os byddan nhw'n gwneud rhywbeth o'i le.



Mae hyn yn helpu pobl i wybod eu bod nhw'n gallu ymddiried mewn pobl sy'n gweithio mewn gofal a chymorth.

Geiriau Anodd

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Mae'r AGGCC yn gweithio gyda darparwyr gwasanaeth i wneud yn siŵr eu bod nhw'n dilyn y rheolau ac yn cwrdd â'r lefel o ansawdd sydd ei angen gan y gyfraith.

Cyngor Gofal Cymru (CGC)

Mae CGC yn gweithio gyda gweithwyr gofal a chefnogaeth i wneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r medrau iawn i wneud eu gwaith.

Gofynion

Mae gofynion yn bethau y mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth eu gwneud wrth gyflenwi gwasanaeth.

Lles

Mae lles yn meddwl bod pethau'n digwydd sy'n gwneud person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus yn eu bywyd ac ym mhopeth maen nhw'n ei wneud.

Trosedd

Mae'n drosedd pan fyddwch chi'n torri'r gyfraith neu'r rheolau.

Unigolyn cyfrifol

Mae unigolyn cyfrifol yn rhywun sydd â gofal am ddarparu'r gwasanaeth mewn mudiad neu awdurdod lleol.